OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 663 (Cy. 148) (C. 37)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 5 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 6) 2022

*Gwnaed - - - - am 4.31 p.m. ar 10 Mehefin 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 100(3) a (4) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 5 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 6) 2022.

**Diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 9(2), ar ôl "y flwyddyn ysgol 2021-2022" mewnosoder "neu'r flwyddyn ysgol 2022-2023".

(3) Yn erthygl 10(1), yn lle "mewn dosbarth meithrin neu ym mlwyddyn 1, blwyddyn 5, blwyddyn 9 neu flwyddyn" rhodder "ym mlwyddyn".

(4) Yn erthygl 15—

(a) ym mharagraff 1(c), yn lle "2022" rhodder "2023";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "2022" rhodder "2023".

(5) Yn erthygl 16(1)(b) yn lle "mewn dosbarth meithrin neu ym mlwyddyn 1, blwyddyn 5, blwyddyn 9 neu flwyddyn" rhodder "ym mlwyddyn".

(**1**) 2018 dccc 2.
(**2**) O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68) a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/1428 (Cy. 369) (C. 80).

**Diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021**

**3.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 9(2), ar ôl "y flwyddyn ysgol 2021-2022" mewnosoder "neu'r flwyddyn ysgol 2022-2023".

(3) Yn erthygl 10(1), yn lle "mewn dosbarth meithrin neu ym mlwyddyn 1, blwyddyn 5, blwyddyn 9 neu flwyddyn" rhodder "ym mlwyddyn".

(4) Yn erthygl 15—

(a) ym mharagraff (1)(c), yn lle "2022" rhodder "2023";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "2022" rhodder "2023".

(5) Yn erthygl 16(1)(b) yn lle "mewn dosbarth meithrin neu ym mlwyddyn 1, blwyddyn 5, blwyddyn 9 neu flwyddyn" rhodder "ym mlwyddyn".

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

Am 4.31 p.m. ar 10 Mehefin 2022

(**3**) O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69) a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/1428 (Cy. 369) (C. 80).

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021 a Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021.

Mae'r ddau orchymyn cychwyn hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion a gynhelir (Gorchymyn Cychwyn Rhif 5) ac awdurdodau lleol (Gorchymyn Cychwyn Rhif 6) roi hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU i blant penodol. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r gofyniad mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol 2021-2022, fel y gellir rhoi'r hysbysiad CDU neu'r hysbysiad Dim CDU yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-2022 neu'r flwyddyn ysgol 2022-2023 (erthyglau 2(2) a 3(2)). Mae hefyd yn gwneud diwygiad sy'n ganlyniadol ar y newid hwnnw (erthyglau 2(4) a 3(4)).

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn diwygio'r grwpiau blwyddyn y mae rhaid rhoi hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU iddynt yn ystod y flwyddyn ysgol 2022-2023 (erthyglau 2(3) a (5) ac erthyglau 3(3) a (5)).